

RYDYM YN RECRIW'TIO

UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





Prif Gogydd - Bwyty a Bar 1891

Gwybodaeth allweddol

Cyflog : £30,095 to £32,798 y flwyddyn

Oriau : 37 awr yr wythnos, ar gyfartaledd dros y flwyddyn

Contract : Parhaol

Am y Rôl

Mae Bwyty a Bar 1891 yn ymfalchïo mewn ciniawa moethus gyda choctels a golygfeydd godidog. Gyda bwyty 1891, y Teras a'r ardal VIP newydd sbon, mae 1891 yn cynnig 3 phrofiad bwyta unigryw mewn un lleoliad.

Yn y rôl hon, byddwch yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth i dîm Cegin a Bwyty 1891, er mwyn darparu profiad cwsmer arbennig.

Fel Prif Gogydd, byddwch yn gyfrifol am reoli holl waith cefn y tŷ, y gadwyn gyflenwi a'r gegin, gan helpu i wireddu potensial masnachol llawn y bwyty. Byddwch yn gyfrifol am wneud penderfyniadau allweddol ac argymhellion i'r uwch dîm rheoli.

Byddwch yn datblygu ac yn gweithredu bwydlenni creadigol cost-effeithiol sy'n rhagweld galw cwsmeriaid a thuueddiadau a ragwelir. Byddwch hefyd yn helpu i greu a gweithredu hyrwyddiadau a mentrau newydd sy'n cyfrannu at dwf masnachol y busnes, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch ym mhob maes.



Prif Gogydd - Bwyty a Bar 1891

Amdanoch chi

Byddwch yn Brif Gogydd profiadol, gyda'r gallu i arwain tîm cegin cyflym. Byddwch yn frwdfrydig ac yn angerddol, gyda sgiliau pobl rhagorol. Bydd ein person delfrydol yn drefnus iawn ac yn gallu defnyddio ei flaengaredd i ddatrys problemau yn gyflym ac yn effeithiol, gan aros yn ddigynnwrf mewn cegin brysur.

Bydd gennych gymhwyster lefel 4, yn ogystal â phrofiad sylweddol o arwain timau arlwyyo a rheoli cegin brysur.

Rydym yn cynnal rhaglen o ail-fuddsoddi parhaus yn ein safleoedd, felly rydym yn chwilio am rywun sy'n croesawu arloesedd a gwelliant, ac sy'n hyblyg i weithio ar draws safleoedd.

Mae'r rôl hon yn cynnwys arwain eraill ac felly mae sgiliau arwain yn bwysig ar gyfer y swydd hon. Y sgiliau arwain rydyn ni'n chwilio amdanyn nhw yw:

- Y gallu i ysbrydoli, cymell a grymuso eraill
- Angerdd a gyriant i ddarparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid
- Dibynadwyedd a gwytnwch
- Gonestrwydd, gyda'r gallu i gymryd cyfrifoldeb a gofyn am help pan fo angen

Os ydych chi'n arweinydd creadigol, sy'n canolbwyntio ar bobl, ac yn dymuno gweithio mewn Cwmni hynod lwyddiannus, cyflym, yna gallai hwn fod yn berffaith i chi.



Prif Gogydd - Bwyty a Bar 1891

Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae Hamdden Sir Ddinbych wedi datblygu portffolio sy'n arwain y sector o gyfleusterau iechyd a ffitrwydd, ac mannau bwyd a diod. Gyda 7 bwyty, bar a Chaffi rhagorol ledled Sir Ddinbych, rydym yn cymharu â'r gorau yn y sector preifat, gan ddarparu cydbwysedd bywyd a gwaith heb ei ail i'n staff.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydym yn gweithio i athroniaeth 'un tîm, un banc' - rydym i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle y gallwch fod wedi'i leoli. Gyda'n gilydd rydym i gyd yn cyfrannu at wneud Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn llwyddiannus.

- Byddwn yn sefyll yn ôl ein hegwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom bob amser i wneud yr hyn sy'n iawn fel eu cyflogwr, a'u gwneud yn falch.
- Ni fyddwn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn dod yn gryfach ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf i'n cwsmeriaid.



Prif Gogydd - Bwyty a Bar 1891

Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwmo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Lwfans gwyliau blynyddol yn dechrau ar 25 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i brynu mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisiau teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Dyddiad Cau: 5 Mai 2022

Lleoliad: Bwyty a Bar 1891, y Rhyl

Gwnewch gais drwy: ebostio eich CV i People@denbighshireleisure.co.uk

